Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 16 Rhagfyr 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.
Y Cynghorydd Sir Bobby Feeley a phedwar aelod o'r cyhoedd.

150. CROESO AC YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes a Robert Owen-Ellis.

151. CYFLWYNIAD GAN DARREN MILLAR AC
Croesawodd y Maer Darren Millar, Aelod Cynulliad Gorllewin Clwyd, i'r cyfarfod. Diolchodd i'r Maer am y croes a dywedodd ei fod yn falch o fod yn yr Hen Lys ar ôl i Gyngor Tref Rhuthun brynu ac adnewyddu'r adeilad. Cyfeiriodd at ddatblygiadau diweddar eraill yn y dref, megis y ddwy ysgol newydd ar safle Glasdir, a'r buddsoddiad yn yr arfaeth yn Ysbyty Rhuthun a'r cynlluniau ar gyfer felodrom a dyfodol Archifau'r sir. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau holi cwestiynau.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad.*

152. DATGAN BUDDIANNAU
Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

153. ADRODDIAD Y MAER
Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

18.11 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
21.11 Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Gefeillio Rhuthun
27.11 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Pantomeim Clwyd Theatr Cymru – noson y wasg
28.11 Cyfarfod gyda'r cyfrifwyr Hill a Roberts
29.11 Noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys
02.12 Cystadleuaeth Cogydd Ifanc Rotari yn Ysgol Brynhyfryd
Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio
03.12 Cyfarfod gyda Paul Morgan, Oakwood Property, yn yr Hen Lys
04.12 Cyfarfod gyda Helen Williams, Cadwyn Clwyd, ynghylch y Felodrom

134. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys, Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig, cyfarfod Canolfan Awelon, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a digwyddiad profi Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn yr Hen Lys
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig a'r Orymdaith Oleuadau
Cyng. Stephen Beach	Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig, diwrnod rhwydweithio Iechyd Meddwl yn Nhrefnant, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a digwyddiad profi Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn yr Hen Lys

Cyng. Jim Bryan	Noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys, Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig a'r Orymdaith Oleuadau, cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a'r Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio
Cyng. Ken Hawkins	Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys, Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig, Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2020 a chyngherddau Nadolig Ysgol Pen Barras
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys, Marchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a digwyddiad profi Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn yr Hen Lys
Cyng. Dave Snape	Noson cipolwg i noddwyr yn yr Hen Lys a'r Farchnad Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig
Cyng. Ifan Wyn	Nadolig a goleuo'r goleuadau Nadolig
Cyng. Emrys Wynne	

155. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Emrys Wynne ynghylch digwyddiadau a fynychwyd a materion yr ymdriniwyd â nhw fel Cynghorydd Tref a Chynghorydd Sir. Roedd hefyd yn nodi ei fwriad i ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref o 31 Rhagfyr 2019. Diolchodd i'r holl aelodau am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch, a gwnaethant hwythau ddiolch iddo am ei gyfraniad fel aelod o'r Cyngor Tref.

156. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2019 yn gywir.*

157. MATERION YN CODI

Dywedodd y Clerc y derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am y cymorth ariannol o £2,000.00 tuag at swyddfa CAB Rhuthun.

158. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019, a'r argymhellion ynghylch cyflog y Clerc a chyflog Rheolwr yr Hen Lys.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a chadarnhau y byddai cyflog Clerc y Dref yn aros ar bwynt 30 y raddfa gyflog, gan ei fod wedi'i gynyddu sawl cynyddran yn y flwyddyn flaenorol ac ni fu rhagor o newidiadau i'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau. Byddai cyflog Rheolwr yr Hen Lys yn symud i'r gynyddran nesaf, pwynt 20, ar 1 Ebrill 2020, yn ddarostyngedig i adolygiad boddhaol o'r perfformiad yn y rôl.*

159. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019.*

160. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Adroddodd y Maer bod BT wedi newid dyddiad gosod y llinell ffôn a band eang i 6 Ionawr. Byddai nifer o ddigwyddiadau prawf yn cael eu cynnal dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac roedd llawer o ddiddordeb gan y gymuned ynghylch llogi'r adeilad.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

161. PARTNERIAETH CYRCHFAN SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych i Gyngor Tref Rhuthun gael aelod ar y Bartneriaeth i gyfrannu at ffurfio'r Cynllun Rheoli Cyrchfan nesaf. Dywedodd y Maer a'r Dirprwy Faer eu bod eisoes yn aelodau'r Bartneriaeth, ac y byddent yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Tref.
PENDERFYNWYD: *y byddai'r Cynghorydd Gavin Harris a'r Cynghorydd Heather Williams yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun ar Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych.*

162. ADNEWYDDU AELODAETH CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL (SLCC)

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda'r Gymdeithas uchod ar gyfer 2020 ar gost o £180.00. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd ar hyn yn unfrydol.
PENDERFYNWYD: *adnewyddu aelodaeth y Clerc gyda SLCC ar gyfer 2020 ar gost o £180.00.*

163. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel yng nghyswllt Cynghorau Tref. Trafododd yr aelodau'r penderfyniadau drafft.
PENDERFYNWYD: *derbyn y penderfyniadau drafft yn Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.*

164. CYLLIDEB DDRAFFT Y CYNGOR TREF AR GYFER 2020-21

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Trafodwyd penawdau'r gyllideb a'r symiau a ddyrannwyd.
PENDERFYNWYD: *gwneud rhagor o waith ar y gyllideb ddrafft a'i chyflwyno gerbron y Cyngor yng nghyfarfod mis Ionawr i wneud y penderfyniad terfynol.*

165. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2019.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Tachwedd 2019.*

166. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100252	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych	Cymorth ariannol i swyddfa Rhuthun		£2,000.00
100253	Clwb Criced Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at brynu peiriant bowlio		£500.00
100254	Kate Harcus	Eitemau i'r digwyddiad cipolwg ar yr Hen Lys		£67.96
100255	Snowdonia Fire & Security	Cynnal a chadw arferol y system larwm tân	*	£66.00

100256	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Rhagfyr 2019	*	£90.00
100257	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres Rhagfyr	*	£84.00
100258	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£701.63
D.D.	Public Works Loan Board (PWLB)	Ad-daliad benthyciad yr Hen Lys		£3,515.42
O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys				
100021	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu eitemau glanweithdra, sgrîn taflunydd ac eitemau ar gyfer y byrddau arddangosfa	*	£2,359.40
100022	Oakwood Property	Taliad am waith adnewyddu'r Hen Lys	*	£10,000.00
100023	Castle Mews Carpets	Teils carped ar gyfer yr Hen Lys	*	£1,755.00

RHAN DAU
Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitemau isod yn breifat.

167. COEDEN NADOLIG
Hysbyswyd yr aelodau bod yr heddlu'n ymchwilio i ddifrodi'r goeden Nadolig ar Sgwâr Sant Pedr. Cyfeiriodd y Maer at y cynigion cymorth a chyfraniadau tuag at goeden arall yn dilyn y digwyddiad, ac awgrymodd gyhoeddi datganiad i'r wasg yn tynnu sylw at yr elfen gadarnhaol hon. Hysbysodd y Clerc yr aelodau y byddai coeden arall yn cael ei gosod ddydd Iau, a'r goleuadau'n cael ei gosod arni'r noson honno. Gofynnodd yr aelodau am gofnodi'r holl gostau'n ynghlwm â hyn, yn cynnwys yr amser gweinyddol, a'i drosglwyddo i'r heddlu.
PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth a chyhoeddi datganiad i'r wasg.*

168. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y FELODROM
Esboniodd y Maer y cynhaliwyd cyfarfod gyda Chadwyn Clwyd gyda'r bwriad o gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl. Byddai Cadwyn Clwyd angen arian cyfatebol ar gyfer hun, a'r bwriad oedd gofyn i Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Rhuthun am gyfraniad. Byddent yn ystyried y dewis gorau ar gyfer y safle arfaethedig, sydd ar dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych, un ai les neu drosglwyddo'r ased. Awgrymwyd bod angen cydlynydd i gymryd cyfrifoldeb am y cam nesaf hwn, a gofynnwyd i'r Cynghorwyr a fyddai'r Cyngor Tref yn fodlon ariannu hyn.
PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth ac i'r Cyngor Tref gyllido'r rôl cydlynydd.*

169. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 20 Ionawr 2020 am 7pm yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.*